# Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol

## *Mesur Gweithgarwch a Pherfformiad - Canllawiau Ychwanegol 2025-26*

# Ynglŷn â'r canllawiau hyn

**Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i awdurdodau lleol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol fel y'u disgrifir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r canllawiau ar gyfer mesur gweithgarwch a pherfformiad fel y disgrifiwyd yn y Fframwaith Perfformiad a Gwella a amlinellwyd yn y cod ymarfer ar gyfer perfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, a gyhoeddwyd dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol gydymffurfio â'r canllawiau yn y ddogfen hon yn unol â'r gofynion arnynt dan y Cod Ymarfer o ran perfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a chodau ymarfer cysylltiedig eraill.

**Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol 2025-26 ac mae'n disodli holl fersiynau blaenorol y canllawiau technegol. Daw i rym ar 1 Ebrill 2025.**

### Y gynulleidfa

Awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid eraill

### Trosolwg

Canllawiau i ategu'r Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r canllawiau'n canolbwyntio ar fesur gweithgarwch a pherfformiad awdurdodau lleol ac mae'n berthnasol o 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026.

### Camau i'w cymryd

Dylai pob awdurdod lleol gasglu, cyflwyno a defnyddio'r data a'r dystiolaeth a nodir yn y canllawiau hyn.

### Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau pellach at:

Y Tîm Dadansoddi ac Arloesi
Y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
2il Lawr y De
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

TimDadansoddiacArloesi@llyw.cymru

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar y dudalen Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol – Canllawiau Ychwanegol 2025-26.

**Dogfennau cysylltiedig**

Cod Ymarfer ar gyfer mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Gwasanaethau Cymdeithasol

Casglu data: Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Mesur gweithgarwch a pherfformiad y gwasanaethau cymdeithasol: Fframwaith Gwella Perfformiad 2025-26

# Cynnwys

Ynglŷn â'r canllawiau hyn ..... 2
Y gynulleidfa ..... 2
Trosolwg ..... 2
Camau i'w cymryd ..... 2
Rhagor o wybodaeth ..... 2
Copïau ychwanegol ..... 3
Dogfennau cysylltiedig ..... 3
Cyflwyniad ..... 1
Mesur gweithgarwch a pherfformiad ..... 2
Beth yw perfformiad 'da'? ..... 3
Defnydd Llywodraeth Cymru o'r data ..... 3
Diogelu data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ..... 4
Rhannu data ..... 4
Adrodd ar berfformiad gofal cymdeithasol ..... 4
Diffiniadau a ddefnyddir yn y canllawiau hyn ..... 5
Metrigau ar gyfer mesur gweithgarwch a pherfformiad ..... 6
Mynegai o'r Metrigau ..... 7
Metrigau sy'n ymwneud ag Oedolion ..... 7
Metrigau sy'n ymwneud â Phlant a Theuluoedd ..... 10
Metrigau sy'n ymwneud â Gofalwyr ..... 15
Casgliadau data dienw ar sail unigolyn ..... 18
Casgliadau data'r gweithlu ..... 19
Atodiad ..... 20
Gofynion Data ..... 20
Cam Un ..... 20
Cam Dau ..... 20

## Cyflwyniad

Daeth y Cod Ymarfer newydd mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru i rym ym mis Ebrill 2020. Cafodd ei lunio gan Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac mae'n disgrifio uchelgais Llywodraeth Cymru i ddefnyddio ystod o ddulliau i gasglu, dadansoddi a deall data a thystiolaeth ynglŷn â darparu gofal a chymorth, a chymorth i ofalwyr ledled Cymru.

Mae’r cod ymarfer yn disgrifio uchelgais i wneud newid go iawn a pharhaus i’r ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu mesur a’u hadrodd a’r ffordd y mae’r wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i lywio dyfodol gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Conglfaen y cod ymarfer newydd yw'r safonau ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys cyfres o safonau sy'n nodi dyheadau ac sydd wedi'u cynllunio i roi her i awdurdodau lleol i weithio tuag at wella bob amser drwy arferion gorau ac arloesedd. Maent wedi’u cynllunio i gyd-fynd â'r Cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ac maent yn cysylltu â’r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn cyfateb hefyd i’r nod pedwarplyg yn y cynllun hirdymor “Cymru Iachach” a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r fframwaith perfformiad a gwella newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn cynnwys y cod ymarfer yn ogystal â chyfres o ddogfennau canllaw sy'n dod â nifer o elfennau allweddol at ei gilydd yn un pecyn cymorth ar gyfer awdurdodau lleol i'w defnyddio yn eu dealltwriaeth o’r modd y caiff gofal cymdeithasol ei ddarparu yn lleol a chenedlaethol a'r effaith y mae'n ei chael ar lesiant unigolion yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol ac Arolygiaeth Gofal Cymru i adolygu'r gofynion cyfredol o dan adran 144a o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gyda'r bwriad o integreiddio Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (y cyfeirir ato’n aml fel Adroddiad y Cyfarwyddwr) i'r fframwaith perfformiad a gwella newydd. Yna bydd Adroddiad y Cyfarwyddwr yn ffurfio'r mecanwaith cyffredinol y bydd awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i ddangos eu perfformiad yn ystod y flwyddyn.

Bwriad y fframwaith yw helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid i gasglu data a thystiolaeth o ansawdd uchel fel y gallant ddeall yn llawn a gwella’r ffordd y maent yn cyflawni eu swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ogystal ag asesu'r effaith y mae hyn yn ei chael ar lesiant pobl Cymru ac ar y gwaith o’u diogelu.

## Mesur gweithgarwch a pherfformiad

Mae'r Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn diffinio sut y mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol gasglu data a thystiolaeth, a'r berthynas rhwng hyn a darpariaeth ac effaith gofal cymdeithasol i bobl Cymru. Mae'n cynnwys tair elfen.

- Mesur gweithgarwch a pherfformiad
- Deall profiadau a chanlyniadau
- Defnyddio tystiolaeth i lywio gwelliant

**Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'r elfen mesur gweithgarwch a pherfformiad.**

Mae mesur gweithgarwch a pherfformiad yn cynnwys:

- Fframwaith o fetrigau perfformiad y mae'n **rhaid** eu casglu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr ledled Cymru.

- Data dienw ar lefel unigolion y mae'n **rhaid** eu casglu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ar agweddau allweddol ar ofal cymdeithasol a'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

- Data cyfanredol am agweddau penodol o ofal cymdeithasol y mae'n **rhaid** eu casglu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn.

- Disgwyliad y dylai awdurdodau lleol gasglu eu data a'u tystiolaeth eu hunain er mwyn deall yn well gyd-destun darparu gofal cymdeithasol yn lleol a'r hyn sydd bwysicaf iddyn nhw ar y pryd.

Mae'r data a gesglir yn yr elfen hon o'r fframwaith yn rhoi cipolwg ar y ffactorau sy'n cyfrannu at y ddealltwriaeth o ofal cymdeithasol yng Nghymru drwy roi gwybodaeth a thystiolaeth ynghylch yr hyn y mae awdurdodau lleol yn ei wneud, pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a data am y bobl y mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda nhw. Mae parhau i gynhyrchu data cyson ar draws Cymru yn galluogi Llywodraeth Cymru i asesu gofal cymdeithasol ar lefel genedlaethol yn ogystal â chaniatáu i awdurdodau lleol rannu data a gwybodaeth sy'n eu cynorthwyo yn eu taith o wella.

Mae'r data a gesglir yn y canllawiau hyn yn ased hanfodol bwysig o ran deall amgylchedd gofal cymdeithasol yn lleol ac yn genedlaethol. Defnyddir y data hefyd i asesu faint o bobl y mae awdurdodau lleol yn darparu gofal a chymorth ar eu cyfer, a'r galw ar wasanaethau a swyddogaethau penodol. Mae hefyd yn ddull y gellir ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol i fonitro eu gallu i gyflawni yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ni ddylai pwrpas casglu data ar berfformiad a gweithgarwch gael ei ystyried ar wahân i'r elfennau eraill yn y fframwaith perfformiad a gwella. Mae'r data a gesglir yma yn ffurfio rhan o'r sylfaen dystiolaeth gyffredinol a dylid ei ddefnyddio ar y cyd â mathau eraill o ddata a thystiolaeth i ddarparu darlun cyflawn a dealltwriaeth o ofal cymdeithasol, ar lefel awdurdod lleol a hefyd gan Lywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol.

Mae'r fframwaith yn annog awdurdodau lleol i gael golwg well ar agweddau ar ofal cymdeithasol ar lefel leol trwy ddatblygu proses o echdynnu, dadansoddi ac adrodd ar ddata sydd y tu hwnt i’r gofynion cenedlaethol, fel y gallant ddeall natur ac effaith eu gwaith yn llawn.

**Beth yw perfformiad ‘da’?**

Mae'r dulliau a ragnodir yn y ddogfen ganllaw hon yn casglu ystod o wybodaeth am faint, galw a llif, a gellir eu defnyddio i ddangos cydymffurfiaeth a gwelliant parhaus yn erbyn y gofynion a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'n bwysig deall na fydd un darn o ddata, o bosibl, yn ddigon i bennu ansawdd cyffredinol gwasanaeth neu ymyrraeth. Mae'r metrigau wedi'u cynllunio i fod yn arwydd o berfformiad, yn hytrach nag i roi asesiad llwyr.

Er mwyn rhoi asesiad gwell a chyffredinol o'u perfformiad, anogir awdurdodau lleol i ymgymryd â gwaith pellach, gan ddefnyddio amrywiaeth o fecanweithiau ar gyfer casglu a dadansoddi data ar ansawdd ac effaith y gwaith y maent yn ei wneud. Gall hyn gynnwys archwilio ystod o ddata yn fanylach gan gynnwys goruchwylio achosion ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol.

## Defnydd Llywodraeth Cymru o’r data

Y prif ddefnydd ar gyfer y data a gesglir ar lefel genedlaethol yw rhoi sicrwydd i Weinidogion a chynorthwyo ein dealltwriaeth o’r modd y darperir gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn llywio a gwella polisi a deddfwriaeth gofal cymdeithasol.

Mae'r metrigau wedi’u cynllunio hefyd i ddarparu data llinell sylfaen cyson y gellir eu defnyddio i ddadansoddi gweithgarwch ac i asesu cydymffurfiaeth a gwelliant yn erbyn gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r data yn y metrigau yn ffynhonnell o wybodaeth sy'n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ehangach, er enghraifft, gwerthusiadau polisi ffurfiol a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio data a thystiolaeth i gael gwell gwybodaeth ar lefel genedlaethol i helpu i wella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Defnyddir y data gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn rheolaidd hefyd i helpu i lywio eu gweithgarwch adolygu perfformiad unigol a thematig.

## Diogelu data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Mae data a gesglir o dan y fframwaith hwn yn cael eu llywodraethu gan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am y data personol y maent yn eu casglu, eu prosesu, a'u dal wrth gyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer oedolion a phlant, a dylent sicrhau bod yr unigolion y maent yn gweithio gyda nhw yn ymwybodol o'u hawliau o ran dal a phrosesu eu gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, unwaith y caiff y data eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru mae'n creu set ddata newydd y mae Llywodraeth Cymru yn rheolydd data ar ei gyfer. Bydd data bob amser yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio dulliau diogel o drosglwyddo data (Afon).

Bydd y data'n cael eu defnyddio at ddibenion ystadegol ac ymchwil ac yn cael eu cadw gan Lywodraeth Cymru cyhyd â'u bod yn parhau i fod yn ddefnyddiol. Oherwydd bod data hanesyddol yn gallu bod yn ddefnyddiol iawn yn y cyd-destun hwn, mae hyn yn debygol o fod yn nifer sylweddol o flynyddoedd.

## Rhannu data

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data metrigau a data cyfanredol yn unol â'i pholisi ar gyhoeddi ystadegau swyddogol. Dim ond data cyfanredol fydd yn cael eu cyhoeddi. Ni fydd unrhyw ddata ar lefel unigolion yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Bydd gan Arolygiaeth Gofal Cymru fynediad at y data fel rhan o'i swyddogaethau perfformiad ac adolygu a bydd yn defnyddio'r data i fonitro darpariaeth awdurdodau lleol yn erbyn y safonau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd gan Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd fynediad at y data i'w chynorthwyo â'u rôl yn arwain a chefnogi gwelliant o fewn sector gofal cymdeithasol Cymru.

Gall Llywodraeth Cymru hefyd rannu data gydag asiantaethau ac ymchwilwyr nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth. Dim ond at ddibenion ystadegol ac ymchwil y mae Llywodraeth Cymru yn rhannu unrhyw ddata, a bydd Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru yn craffu ar hyn i sicrhau eu bod yn cael eu rhannu ar sail deg a chyfreithlon.

## Adrodd ar berfformiad gofal cymdeithasol

Wrth ddatblygu'r fframwaith perfformiad a gwella, archwiliodd Llywodraeth Cymru gryn dipyn o ymchwil ar fanteision ac anfanteision amrywiaeth o wahanol ddulliau o adrodd ar berfformiad gofal cymdeithasol ar lefel genedlaethol. Gwelwyd bod cyhoeddi perfformiad ar ffurf wedi'i rancio, yn debyg i dabl cynghrair perfformiad, yn esgor ar nifer o ganlyniadau negyddol a all effeithio'n andwyol ar sut mae

sefydliadau'n ymateb i'r angen i wella. O ganlyniad, bydd yr arfer o rancio awdurdodau lleol yn ôl chwartel yn dod i ben.

Er ein bod yn parhau i annog rhannu data a pherfformiad ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'n bwysig cofio bod penderfynyddion ehangach yn dylanwadu ar berfformiad, a dylid ystyried y ffactorau hyn wrth wneud cymariaethau rhwng awdurdodau lleol.

## Diffiniadau a ddefnyddir yn y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau technegol ar gyfer mesur gweithgarwch a pherfformiad yn defnyddio iaith a therminoleg benodol i ddisgrifio digwyddiadau ac unigolion, sy'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r casgliadau data sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau hyn wedi'u rhannu yn ôl categori oedolion, plant a gofalwyr. Diffinnir y rhain gan y Ddeddf fel:

- Ystyr "oedolyn" yw unigolyn sy'n 18 oed neu hŷn;
- Ystyr "plentyn" yw unigolyn o dan 18 oed; ac,
- Ystyr "gofalwr" yw unigolyn sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl.

*Nodyn: Mae nifer o fetrigau ar gyfer plant yn cynnwys plant sydd wedi bod mewn gofal ac sydd erbyn hyn yn oedolion.*

Mae gan bob un o'r metrigau yn y fframwaith ddiffiniad technegol manwl. Mae'r holl ddiffiniadau wedi'u datblygu gan arbenigwyr data a gwybodaeth Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol drwy'r Is-grŵp Adrodd Cenedlaethol.

Datblygwyd y diffiniadau technegol hyn, y bwriedir iddynt gael eu defnyddio gan arbenigwyr data a gwybodaeth o fewn pob awdurdod lleol, i roi dealltwriaeth gyfunol gyson o'r paramedrau casglu (*beth* rydym yn ei gyfrif a *sut*) ar gyfer pob metrig er mwyn sicrhau bod yr un data yn cael eu casglu ledled Cymru. Mae'r diffiniadau technegol hyn wedi'u cynnwys yn Mesur gweithgarwch a pherfformiad gwasanaethau cymdeithasol: fframwaith gwella perfformiad 2023 i 2024 | LLYW. CYMRU.

Mae'r derminoleg a ddefnyddir yn niffiniad technegol pob metrig yn gyson â'r iaith a ddefnyddir yn y codau ymarfer ar gyfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae cyfeiriadau at adrannau perthnasol y codau ymarfer wedi'u cynnwys yn y diffiniad technegol fel sy'n briodol.

## Metrigau ar gyfer mesur gweithgarwch a pherfformiad

Mae'r metrigau a ddatblygwyd yn y fframwaith perfformiad a gwella newydd yn gyfrif syml o weithgarwch sy'n casglu data sy'n ymwneud â'r modd y mae awdurdodau lleol yn arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Gallwn gyfuno metrigau penodol i greu mesurau sy'n mesur pa mor dda y perfformiodd awdurdod lleol mewn perthynas â'r gofynion a ddiffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae metrigau wedi cael eu categoreiddio yn ôl y grwpiau canlynol:

- Oedolion
- Plant
- Gofalwyr (gofalwyr sy'n oedolion, a gofalwyr ifanc)

Mae'r metrigau a gynhwysir yn y fframwaith yn rhoi golwg ar yr agweddau mwyaf arwyddocaol ar weithgareddau'r gwasanaeth cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Maent wedi cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru), Arolygiaeth Gofal Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, a sector gofal cymdeithasol ehangach Cymru.

### Cam Tri

Bydd Cam tri yn canolbwyntio ar leihau baich gweinyddol y Metrigau Perfformiad Cenedlaethol ar awdurdodau lleol, ac yn ceisio ehangu cynhwysedd y data sy'n seiliedig ar yr unigolyn, fel a ganlyn:

1. Metrigau Perfformiad Cenedlaethol, gan ddefnyddio data a gesglir trwy Ddata Gweithgarwch Seiliedig ar Unigolion (lle bo hynny'n bosibl)
2. Data Gweithgarwch Seiliedig ar Unigolion
    a. Y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA)
    b. Y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth (CRCSC)
    c. Y Cyfrifiad Gofal a Chymorth i Oedolion (ARCSC)
    d. Y Cyfrifiad Gofalwyr Di-dâl sy'n Derbyn Cymorth (UCRS)

Mae'r gwaith hwn yn parhau a gweithredir yr UCRS newydd o fis Ebrill 2025 ymlaen, gan adrodd ar y data cyntaf yn 2026/27.

# Mynegai o'r Metrigau

## Metrigau sy'n ymwneud ag Oedolion

### Cysylltiadau Oedolion

AD/001 – Nifer y cysylltiadau ar gyfer oedolion a gafwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn.

a. Cyfanswm y cysylltiadau
b. Nifer y cysylltiadau newydd

AD/002 – Nifer y cysylltiadau newydd ar gyfer oedolion a gafwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor neu gymorth.

AD/003 – Nifer y cysylltiadau newydd a gafwyd gan y gwasanaethau cymdeithasol statudol ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn, lle darparwyd cyngor neu gymorth, yn ôl math o gyswllt (ee yr unigolyn, perthynas, ac ati.)

### Asesiadau Oedolion

AD/004 – Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn.

AD/005 – Nifer yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn lle:

a. Dim ond gyda chynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.
b. Gellid diwallu anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.

AD/006 – Nifer yr asesiadau ar gyfer oedolion a gwblhawyd (AD/004) yn ystod y flwyddyn lle:

a. Roedd tystiolaeth o gynnig rhagweithiol y Gymraeg
b. Derbyniwyd Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg
c. Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio'r iaith a ffefrir (unrhyw iaith, heb fod yn gyfyngedig i'r Gymraeg neu Saesneg).

AD/007 – Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn yr ystâd ddiogel.

AD/008 – Nifer yr asesiadau newydd y gofynnodd yr oedolyn neu'r teulu amdanynt yn ystod y flwyddyn lle'r oedd asesiad blaenorol wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol.

AD/009 – Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd, pan ofynnwyd am yr asesiad gan yr oedolyn neu'r teulu yn ystod y flwyddyn, roedd asesiad blaenorol wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol, nid oes gan yr unigolyn gynllun gofal a chymorth ar hyn o bryd a lle mai canlyniad yr asesiad newydd yw:

a. Dim ond gyda chynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.
b. Gellid diwallu anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.

### Ail-alluogi

AD/010 – Cyfanswm y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

AD/011 – Cyfanswm y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle:

a. Cafodd yr angen am gymorth ei leihau

b. Cafodd yr angen am gymorth ei gynnal
c. Cafodd yr angen am gymorth ei liniaru
d. Ni chafodd yr angen am gymorth ei leihau, ei gynnal na'i liniaru

**Cynlluniau gofal a chymorth i Oedolion**

AD/012 – Nifer yr oedolion sydd â:

a. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth.
b. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth yn ogystal ag anghenion cymorth fel gofalwr, a allai gynnwys cynllun cymorth i ofalwyr.

AD/013 – Cyfanswm yr oedolion â chynllun gofal a chymorth y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu drwy Daliadau Uniongyrchol ar 31 Mawrth sydd â:

a. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth.
b. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth yn ogystal ag anghenion cymorth fel gofalwr, a allai gynnwys cynllun cymorth i ofalwyr.

AD/014 – Ar gyfer gwasanaethau a ddechreuwyd yn ystod y flwyddyn, cyfanswm y diwrnodau y mae'n rhaid i oedolion aros rhwng y dyddiad dechrau a drefnwyd a dyddiad dechrau gwirioneddol gwasanaeth a nodwyd yn eu cynllun gofal a chymorth, pan fo'r gwasanaeth hwnnw yn:

a. Cartref Gofal i Oedolion
b. Gofal cartref

AD/015 – Cyfanswm y gwasanaethau i oedolion a ddechreuwyd yn ystod y flwyddyn pan fo'r gwasanaeth hwnnw yn:

a. Cartref Gofal i Oedolion
b. Gofal Cartref
c. Gofal Seibiant

AD/016 – Nifer yr oedolion a oedd i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn gasglu.

AD/017 – Nifer yr oedolion a oedd i'w hadolygu yn y flwyddyn gasglu ac a adolygwyd o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn gasglu.

AD/018 – Nifer yr oedolion a gefnogir drwy daliadau uniongyrchol a oedd i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn gasglu.

AD/019 - Nifer yr oedolion a gefnogir drwy daliadau uniongyrchol a oedd i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn gasglu ac a adolygwyd o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn gasglu.

**Diogelu Oedolion**

AS/001 – Cyfanswm yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn.

AS/002 – Cyfanswm yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a gofnodwyd fwy nag unwaith ar gyfer yr un categori o gamdriniaeth neu esgeulustod yn ystod y flwyddyn.

AS/003 – Cyfanswm yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a gofnodwyd ar gyfer categorïau gwahanol o gamdriniaeth neu esgeulustod yn ystod y flwyddyn.

AD/020 – Cyfanswm yr adroddiadau a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn am oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl.

AD/021 – Cyfanswm yr adroddiadau am oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl yn ystod y flwyddyn, yn ôl math o gyswllt (ee yr unigolyn, perthynas, ac ati)

AD/022 – Cyfanswm yr adroddiadau a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn gasglu lle'r honnwyd bod cam-drin o dan y prif gategori o esgeulustod, cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol, cam-drin emosiynol neu seicolegol, cam-drin ariannol, ac yn ôl categori oedran.

AS/004a – Cyfanswm yr adroddiadau a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn gasglu yn ôl ethnigrwydd yr oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

AS/004b – Cyfanswm yr adroddiadau a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn gasglu lle'r oedd yr oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso yn:

a. Gwryw
b. Benyw
c. Arall
d. Ni ddatgelwyd neu nid yw'n hysbys

AD/023 – Cyfanswm yr adroddiadau ynghylch oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl pan fo angen cynnal ymholiadau adran 126, yn ôl categori oedran.

AD/024 – Cyfanswm yr ymholiadau adran 126 a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith o gael gwybod am yr achos honedig o gam-drin.

AD/025 – O'r ymholiadau hynny, nifer yr ymholiadau yn ôl y math o gyflawnwr honedig (ee priod, plentyn, aelod o'r teulu, ac ati).

AS/005 – O'r ymholiadau adran 126 hynny, y nifer lle digwyddodd y gamdriniaeth honedig yn: ei gartref, ei gymuned, ei leoliad cartref gofal, ei leoliad iechyd.

AD/026 – Cyfanswm yr ymholiadau adran 126:

a. lle nodwyd bod risg o gamdriniaeth neu esgeulustod a phenderfynwyd y dylid cymryd camau ychwanegol.
b. lle nodwyd bod risg o gamdriniaeth neu esgeulustod ond penderfynwyd na ddylid cymryd camau ychwanegol.
c. lle'r oedd yr asesiad o'r risg o gamdriniaeth neu esgeulustod yn amhendant, a phenderfynwyd y dylid cymryd camau ychwanegol.
d. lle'r oedd yr asesiad o'r risg o gamdriniaeth neu esgeulustod yn amhendant, a phenderfynwyd na ddylid cymryd camau ychwanegol.

AD/027 – Cyfanswm yr ymholiadau adran 126 lle gwrthododd yr unigolyn gymryd rhan yn y camau a nodwyd.

AD/028 – Cyfanswm:

a. yr ymholiadau adran 126 yn ystod y flwyddyn gasglu lle penderfynwyd y dylid cymryd camau ychwanegol gan arwain at gynllun amddiffyn gofal a chymorth agored.

b. y cynlluniau amddiffyn gofal a chymorth agored ar gyfer oedolion ar 31 Mawrth pan fo’r awdurdod lleol o'r farn bod angen amddiffyn oedolyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag y risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

AS/006 – Cyfanswm yr ymchwiliadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle’r oedd yr ymchwiliad yn un:

a. Troseddol
b. Anhroseddol

AS/0076 Cyfanswm:

a. yr ymholiadau adran 126 ynghylch oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn.
b. y cyfarfodydd a’r trafodaethau strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.
c. y cyfarfodydd cynhadledd achos a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

**Mathau o Ofal a Chymorth**

AD/029 – Nifer yr oedolion sydd â chynllun gofal a chymorth a oedd yn ystod y flwyddyn:

a. wedi talu’r uchafswm tâl wythnosol tuag at gost gofal dibreswyl
b. wedi talu ffi cyfradd safonol tuag at wasanaethau gofal a chymorth
c. canfuwyd eu bod dros y terfyn cyfalaf ar gyfer gofal preswyl

AD/030 – Cyfanswm yr oedolion ar 31 Mawrth gyda gofal a chymorth yn ôl math o wasanaeth a chategori oedran.

AD/031 - Cyfanswm yr oedolion ar 31 Mawrth y codwyd tâl arnynt am ofal a chymorth, yn ôl math o wasanaeth a chategori oedran.

**Eiriolaeth Oedolion**

AD/032 – Cyfanswm yr oedolion yn ystod y flwyddyn lle nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol.

AD/033 – Cyfanswm yr oedolion yn ystod y flwyddyn lle nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol ac y darparwyd eiriolwr proffesiynol annibynnol.

## Metrigau sy'n ymwneud â Phlant a Theuluoedd

**Cysylltiadau Plant**

CH/001 – Nifer y cysylltiadau ar gyfer plant a gafwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn.

CH/002 – Nifer y cysylltiadau ar gyfer plant a gafwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor a chymorth.

CH/003 – Nifer y cysylltiadau a gafwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol i blant yn ystod y flwyddyn lle gwnaed penderfyniad erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf

CH/004 – Nifer y cysylltiadau a gafwyd gan wasanaethau plant statudol yn ystod y flwyddyn, yn ôl y math o gyswllt (ee yr unigolyn, perthynas, ffrind, ac ati.)

CH/005 – Cyfanswm y cysylltiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn lle:

a. Roedd cosb gorfforol gan riant neu ofalwr yn un o sawl ffactor.
b. Cosb gorfforol gan riant neu ofalwr oedd yr unig ffactor.

**Asesiadau Plant**

CH/006 – Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn.

CH/007 – Nifer yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn lle:

a. Dim ond gyda chynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.
b. Gellid diwallu anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.

CH/008 – Cyfanswm y canlynol:

a. Asesiadau ar gyfer plant a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer plant a gafodd eu geni ar yr adeg y daeth yr asesiad i ben.
b. O'r rheini, lle ceir tystiolaeth bod y plentyn wedi cael ei weld.

CH/009 – Nifer yr asesiadau ar gyfer plant a gwblhawyd (CH/006) yn ystod y flwyddyn lle:

a. Roedd tystiolaeth o gynnig rhagweithiol y Gymraeg
b. Derbyniwyd Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg
c. Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio'r iaith a ffefrir (unrhyw iaith, heb fod yn gyfyngedig i'r Gymraeg neu Saesneg).

CH/010 – Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn yr ystâd ddiogel.

CH/011 – Cyfanswm yr asesiadau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle:

a. Roedd cosb gorfforol gan riant neu ofalwr yn un o sawl ffactor.
b. Cosb gorfforol gan riant neu ofalwr oedd yr unig ffactor.

CH/012 – Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol.

CH/013 – Nifer yr asesiadau newydd y gofynnodd y plentyn neu'r teulu amdanynt yn ystod y flwyddyn lle'r oedd asesiad blaenorol wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol.

CH/014 – Nifer yr asesiadau newydd y gofynnwyd amdanynt gan y plentyn neu'r teulu yn ystod y flwyddyn a bod asesiad blaenorol wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol lle:

a. Dim ond gyda chynllun gofal a chymorth y gellid diwallu anghenion.
b. Gellid diwallu anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.

**Cynlluniau Gofal a Chymorth i Blant**

CH/015 – Nifer y plant gyda:

a. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth.
b. Cynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth a chynllun cymorth i ofalwyr hefyd, pan fo gan y plentyn ei anghenion gofal a chymorth ei hun a chyfrifoldebau fel gofalwr ifanc

CH/016 – Cyfanswm y plant â chynllun gofal a chymorth y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu drwy Daliad Uniongyrchol ar 31 Mawrth.

CH/017 – Nifer yr adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth a darpariaethau cymorth ariannol a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu a oedd yn:

a. adolygiadau amddiffyn plant

b. adolygiadau plant sy'n derbyn gofal (gan gynnwys adolygiadau cynllun llwybr ac adolygiadau cyn mabwysiadu)
c. adolygiadau o blant y mae angen gofal a chymorth arnynt (gan gynnwys plant a gefnogir gan daliad uniongyrchol)
d. adolygiadau o gefnogaeth i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig
e. adolygiadau o gymorth ariannol i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig

CH/018 – Nifer yr adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth a darpariaethau o gymorth ariannol a oedd wedi cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu ac a oedd o fewn amserlenni statudol, a oedd yn:

a. adolygiadau amddiffyn plant
b. adolygiadau plant sy'n derbyn gofal (gan gynnwys adolygiadau cynllun llwybr ac adolygiadau cyn mabwysiadu)
c. adolygiadau o blant y mae angen gofal a chymorth arnynt (gan gynnwys plant a gefnogir gan daliad uniongyrchol)
d. adolygiadau o gefnogaeth i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig
e. adolygiadau o gymorth ariannol i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig

CH/019 – Nifer yr adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth a darpariaethau cymorth ariannol a oedd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu, ni waeth a oeddent o fewn amserlenni statudol ai peidio, a oedd yn:

a. adolygiadau amddiffyn plant
b. adolygiadau plant sy'n derbyn gofal (gan gynnwys adolygiadau cynllun llwybr ac adolygiadau cyn mabwysiadu)
c. adolygiadau o blant y mae angen gofal a chymorth arnynt (gan gynnwys plant a gefnogir gan daliad uniongyrchol)
d. adolygiadau o gefnogaeth i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig
e. adolygiadau o gymorth ariannol i blant sydd â Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig

**Diogelu Plant**

CH/020a – Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol ar gyfer plant a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn gasglu.

CH/021b – Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol ar gyfer plant a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn gasglu, yn ôl math o gyflawnwr neu gyflawnwyr honedig.

CH/020c – Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol ar gyfer plant a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn gasglu, yn ôl lleoliad neu leoliadau y gamdriniaeth honedig.

CH/021a – Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau adran 47.

CH/021b – Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau adran 47, yn ôl math o gyflawnwr neu gyflawnwyr honedig.

CH/021c – Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau adran 47, yn ôl lleoliad neu leoliadau y gamdriniaeth honedig.

CH/022 – Cyfanswm yr ymholiadau adran 47 a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a aeth ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.

CH/023 (a-i) – Cyfanswm y Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at y penderfyniad i roi plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o dan gategori:

a. Esgeulustod
b. Cam-drin corfforol
c. Cam-drin rhywiol
d. Cam-drin emosiynol
e. Cam-drin ariannol
f. Esgeulustod a cham-drin corfforol
g. Cam-drin corfforol a rhywiol
h. Esgeulustod a cham-drin rhywiol
i. Esgeulustod, cam-drin corfforol a rhywiol

Ac yn ôl categori oedran.

CH/023 (j-k) – Cyfanswm y Cynadleddau Amddiffyn Plant cychwynnol a gynhaliwyd yn y flwyddyn a arweiniodd at benderfynu peidio â rhoi plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant:

j. Nifer y plant yn ystod y flwyddyn na chredir eu bod mewn perygl o niwed sylweddol mewn cynhadledd amddiffyn plant ond sydd angen Gofal a Chymorth o hyd

k. Nifer y plant yn ystod y flwyddyn na thybiwyd eu bod mewn perygl o niwed sylweddol mewn cynhadledd amddiffyn plant ac ni nodwyd unrhyw anghenion cymwys ychwanegol

CH/024 - Nifer y plant a gafodd eu hychwanegu at y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn gasglu:

a. Pob plentyn
b. Plant a gofrestrwyd yn flaenorol o dan unrhyw gategori, ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis blaenorol.

CH/025a – Nifer y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol cyn geni a gynullwyd yn ystod y flwyddyn. CH/025b – Nifer y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn gasglu a gynhaliwyd o fewn yr amserlenni statudol.

CH/026 – Cyfanswm y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant:

a. ar 31 Mawrth;
b. yn ystod y flwyddyn gasglu

CH/027 – Nifer y cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

CH/028 – Nifer y cyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac a gynhaliwyd o fewn amserlenni statudol.

CH/029 – Cyfanswm yr ymweliadau â phlant ar y gofrestr amddiffyn plant a oedd yn ddyledus yn ystod y flwyddyn gasglu.

CH/030 – Cyfanswm yr ymweliadau â phlant ar y gofrestr amddiffyn plant a gafodd:

a. eu cwblhau, ni waeth a oeddent o fewn amserlenni statudol ai peidio
b. eu cwblhau o fewn amserlenni statudol.

CH/031 – Cyfanswm yr adroddiadau am blant sy’n mynd ar goll o ofal yn ystod y flwyddyn.

CH/032 – Cyfanswm y plant sy’n mynd ar goll o ofal yn ystod y flwyddyn.

CH/033 – Cyfanswm y Cyfarfodydd Strategaeth Cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd camfanteisio ar blant yn ffactor.

CH/034 – Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn lle penderfynwyd symud ymlaen i ymholiadau adran 47, yn ôl math y camfanteisio ar blant:

a. Camfanteisio'n rhywiol ar blant
b. Camfanteisio’n droseddol ar blant
c. Masnachu mewn plant

CH/035 – Cyfanswm y diwrnodau ar y gofrestr amddiffyn plant ar gyfer plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn.

CH/036 – Cyfanswm y plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr amddiffyn plant (eu dadgofrestru) yn ystod y flwyddyn.

**Plant sy’n Derbyn Gofal**

CH/037a – Nifer y plant sy’n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn.

CH/037b – Nifer yr episodau newydd o blant yn dechrau derbyn gofal yn ystod y flwyddyn.

CH/037c – Nifer yr episodau newydd o blant yn dechrau derbyn gofal yn ystod y flwyddyn lle'r oedd yr episod cychwynnol mewn gofal yn para 10 diwrnod gwaith neu fwy.

CH/038 – Nifer y cynlluniau gofal a chymorth rhan 6 a gwblhawyd o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau derbyn gofal.

CH/039 – Nifer y plant sy’n derbyn gofal ar 31 Mawrth.

CH/040 – Cyfanswm y plant sy’n cael seibiannau byr (S76) ar 31 Mawrth.

CH/041 – Nifer yr ymweliadau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn.

CH/042 – Nifer yr ymweliadau statudol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a gafodd:

a. eu cwblhau, ni waeth a oeddent o fewn amserlenni statudol ai peidio
b. eu cwblhau o fewn amserlenni statudol.

CH/043 – Cyfanswm y plant sy’n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn.

CH/044 – Cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi newid ysgol unwaith neu ragor yn ystod y flwyddyn (ac eithrio trefniadau pontio, symudiadau’n gysylltiedig â mabwysiadu neu symud yn ôl adref).

CH/045 – Cyfanswm y plant sy’n derbyn gofal a ddychwelodd adref yn ystod y flwyddyn.

CH/046 – Cyfanswm y plant sy’n derbyn gofal nad ydynt yn cael eu lleoli gyda rhieni, teulu na ffrindiau ar 31 Mawrth.

CH/047 – Cyfanswm y plant sy’n derbyn gofal a leolir yng Nghymru, ond y tu allan i’r awdurdod lleol cyfrifol ar 31 Mawrth.

CH/048 – Cyfanswm y plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu lleoli y tu allan i Gymru ar 31 Mawrth.

**Pobl sy’n gadael gofal**

CH/049 – Cyfanswm y Cynlluniau Llwybr cychwynnol i’w cwblhau yn ystod y flwyddyn.

CH/050 – Cyfanswm y Cynlluniau Llwybr cychwynnol a oedd yn ddyledus yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn amserlenni.

CH/051 – Cyfanswm y bobl ifanc yn ystod y flwyddyn lle dyrannwyd ymgynghorydd personol yn ôl yr angen.

CH/052 – Cyfanswm y bobl ifanc sy’n gadael gofal sy’n ddigartref yn ystod y flwyddyn (fel y’i diffinnir gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014).

CH/053 – Cyfanswm y bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn y categorïau canlynol ar 31 Mawrth:

a. categori 1
b. categori 2
c. categori 3
d. categori 4
e. categori 5
f. categori 6

CH/054 – Cyfanswm y bobl ifanc, ar 31 Mawrth, yng nghategorïau 2, 3 a 4 sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis yn olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn ystod y flwyddyn gasglu a oedd yn:

a. Categori 2
b. Categori 3
c. Categori 4

CH/055 – Nifer y bobl ifanc sy’n gadael gofal sy’n symud i leoliad ‘Pan Fydda i’n Barod’ yn ystod y flwyddyn.

**Eiriolaeth Plant**

CH/056 – Cyfanswm y “Cynigion Rhagweithiol” o eiriolaeth i blant, pump oed a throsodd ar ddechrau’r flwyddyn gasglu, yn ystod y flwyddyn.

CH/057 – Cyfanswm y “Cynigion Rhagweithiol” o eiriolaeth i blant yn ystod y flwyddyn lle darparwyd Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol.

## Metrigau sy’n ymwneud â Gofalwyr

### Cysylltiadau Gofalwyr sy’n Oedolion

CA/001 – Cyfanswm y cysylltiadau â gwasanaethau cymdeithasol statudol gan ofalwyr sy'n oedolion neu weithwyr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar eu rhan a gafwyd yn ystod y flwyddyn.

CA/002 – Nifer y cysylltiadau ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor neu gymorth.

CA/003 – Nifer y cysylltiadau a gafwyd ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion gan y gwasanaethau oedolion statudol yn ystod y flwyddyn, yn ôl y math o gyswllt (ee yr unigolyn, perthynas, ffrind, ac ati.)

**Asesiadau Gofalwyr sy'n Oedolion**

CA/004 – Cyfanswm yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer oedolion a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

CA/005 – Nifer yr asesiadau gofalwyr a gwblhawyd ar gyfer oedolion yn ystod y flwyddyn lle:

a. Gellid diwallu anghenion gyda chynllun cymorth neu gynllun gofal a chymorth gofalwr.
b. Gellid diwallu anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.

CA/006 – Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer oedolion a wrthodwyd yn ystod y flwyddyn.

CA/007 – Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer oedolion a gwblhawyd (CA/004) yn ystod y flwyddyn lle:

a. Roedd tystiolaeth o gynnig rhagweithiol y Gymraeg
b. Derbyniwyd Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg
c. Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio'r iaith a ffefrir (unrhyw iaith, heb fod yn gyfyngedig i'r Gymraeg neu Saesneg).

**Cynlluniau Cymorth i Ofalwyr sy'n Oedolion**

CA/008 – Nifer y gofalwyr sy'n oedolion sydd â:

a. Cynllun cymorth i ofalwyr ar 31 Mawrth.
b. Cynllun cymorth i ofalwyr ar 31 Mawrth a hefyd cynllun gofal a chymorth, pan fo gan yr oedolyn gyfrifoldebau fel gofalwr a'i anghenion gofal a chymorth ei hun.

CA/009 – Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion a oedd i fod i gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn gasglu.

CA/010 – Nifer y cynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion a oedd i fod i gael eu hadolygu yn y flwyddyn gasglu ac a adolygwyd o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn gasglu.

**Cysylltiadau Gofalwyr Ifanc**

CA/011 – Cyfanswm y cysylltiadau â gwasanaethau cymdeithasol statudol gan ofalwyr ifanc neu weithwyr proffesiynol sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar eu rhan a gafwyd yn ystod y flwyddyn.

CA/012 – Nifer y cysylltiadau ar gyfer ofalwyr ifanc a gafodd y gwasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor neu gymorth.

CA/013 – Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd ar gyfer gofalwyr ifanc gan y gwasanaethau plant statudol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i law, yn ôl y math o gyswllt (ee yr unigolyn, perthynas, ffrind, ac ati.)

**Asesiadau Gofalwyr Ifanc**

CA/014 – Cyfanswm yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer gofalwyr ifanc a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

CA/015 – Nifer yr asesiadau gofalwyr a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn lle:

a. Gellid diwallu anghenion gyda chynllun cymorth neu gynllun gofal a chymorth gofalwr ifanc.
b. Gellid diwallu anghenion drwy ddulliau eraill.
c. Nid oedd unrhyw anghenion cymwys i'w diwallu.

CA/016 – Nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer gofalwyr ifanc a gwblhawyd (CA/014) yn ystod y flwyddyn lle:

a. Roedd tystiolaeth o gynnig rhagweithiol y Gymraeg
b. Derbyniwyd Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg
c. Cynhaliwyd yr asesiad gan ddefnyddio'r iaith a ffefrir (unrhyw iaith, heb fod yn gyfyngedig i'r Gymraeg neu Saesneg).

**Cynlluniau Cymorth i Ofalwyr Ifanc**

CA/017 – Nifer y gofalwyr ifanc sydd â:

a. Cynllun cymorth i ofalwyr ar 31 Mawrth.
b. Cynllun cymorth i ofalwyr ar 31 Mawrth a hefyd cynllun gofal a chymorth, pan fo gan y person ifanc gyfrifoldebau fel gofalwr a'i anghenion gofal a chymorth ei hun.

CA/018 - Nifer yr adolygiadau o gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc a oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn gasglu.

CA/019 – Nifer yr adolygiadau o gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc a oedd wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn gasglu a oedd o fewn amserlenni statudol.

CA/020 – Nifer yr adolygiadau o gynlluniau cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc a oedd wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn, ni waeth a gawsant eu cwblhau o fewn amserlenni statudol ai peidio.

## Casgliadau data dienw ar sail unigolyn

Mae'r elfen ar gyfer mesur gweithgarwch a pherfformiad hefyd yn cynnwys data y mae'n **rhaid** eu casglu ar lefel unigolyn. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Y Cyfrifiad Plant sy’n Derbyn Gofal
- Y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth
- Y Cyfrifiad Oedolion sy’n Derbyn Gofal a Chymorth

*Nodyn: Datblygwyd y Cyfrifiad Oedolion sy’n Derbyn Gofal a Chymorth fel rhan o gam dau y fframwaith perfformiad a gwella; dechreuodd y gwaith o gasglu data ym mis Ebrill 2023.*

Ar lefel leol, gellir defnyddio data sy'n seiliedig ar yr unigolyn i gael mwy o olwg ar agweddau penodol ar wasanaethau cymdeithasol, gan y gellir dadansoddi'r data hyn ar draws nifer o nodweddion gwahanol sy'n caniatáu dealltwriaeth ddyfnach o ddarparu gofal a chymorth.

Mae gan ddata a gesglir ar lefel unigolyn werth ychwanegol gan fod dadansoddiad pellach a chysylltu â setiau data eraill yn bosibl – gan gynnwys cysylltu data ar draws ffiniau sefydliadol, sy’n caniatáu i astudiaethau mwy cymhleth gael eu cynnal. Mae canllawiau technegol ychwanegol ar gael ar gyfer yr holl ddata ar sail unigolion ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Casgliadau data'r gweithlu**

Cyn cyflwyno'r Fframwaith Perfformiad a Gwella, roedd data ar y gweithlu yn cael eu casglu gan sawl sefydliad gwahanol. Un o gysyniadau craidd y fframwaith oedd cael gwared ar ddyblygu, gan symleiddio casgliadau data lle bynnag y bo modd. Ers iddo gael ei gyflwyno, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Gofal Cymdeithasol Cymru arwain ar gasglu data am y gweithlu gofal cymdeithasol ar ran y sefydliadau sydd â diddordeb yn y data hyn. Mae'r gwaith o gasglu data am y gweithlu gofal cymdeithasol yn elfen allweddol o'n gwybodaeth gyffredinol am ofal cymdeithasol yng Nghymru ac felly fe'i cynhwysir yma fel data y mae'n **rhaid** eu casglu.

Gellir dod o hyd i ragor o ganllawiau ar gasglu'r data hyn trwy gofrestru gyda gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

# Atodiad

## Gofynion Data

Rydym yn cyflwyno'r fframwaith perfformiad a gwella yn raddol i ganiatáu i awdurdodau lleol gael yr amser sydd ei angen i weithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol sydd eu hangen i gyflawni ei ofynion yn llwyddiannus.

### Cam Un

Dyma'r casgliadau data ar ôl cwblhau Cam Un (Ebrill 2020):

1. Metrigau Perfformiad Cenedlaethol

2. Data Perfformiad Cyfanredol
    a. Diogelu Oedolion
    b. Diogelu Plant
    c. Cofrestrau Anabledd

3. Data Gweithgarwch sy'n seiliedig ar Unigolyn
    a. Y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA)
    b. Y Cyfrifiad Plant sydd Angen Gofal a Chymorth (CRCSC)

### Cam Dau

Bydd gwaith cam dau yn cynnwys rhai newidiadau ychwanegol i'r elfen mesur gweithgarwch a pherfformiad, fel a ganlyn:

1. Metrigau Perfformiad Cenedlaethol, sy'n cynnwys Data Perfformiad Cyfanredol
    a. Diogelu Oedolion
    b. Diogelu Plant

2. Data Gweithgarwch sy'n seiliedig ar Unigolyn
    a. Y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA)
    b. Y Cyfrifiad Plant sy’n Derbyn Gofal a Chymorth (CRCSC)
    c. Y Cyfrifiad Gofal a Chymorth i Oedolion (ARCSC)
    d. Cyfrifiad Gofalwyr Di-dâl

Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Rhoddwyd y Cyfrifiad Gofal a Chymorth i Oedolion (ARCSC) newydd ar waith ym mis Ebrill 2023 a bydd y Cyfrifiad Gofalwyr Di-dâl sy'n Derbyn Cymorth (UCRS) yn cael ei roi ar waith ym mis Ebrill 2025.